Department for Business, Energy & Industrial Strategy

**Department for Business, Energy & Industrial Strategy**
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

T +44 (0) 20 7215 5872
E beiseip@beis.gov.uk
W www.gov.uk

At: Cyngor Sir Powys,
RES UK & Ireland Limited ac
Innogy Renewables UK Limited

cc. Cyfoeth Naturiol Cymru

**Ein cyf:**

19 Rhagfyr 2018

Annwyl Syr/Madam,

**DEDDF TRYDAN 1989: AILBENDERFYNIAD GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS FUSNES, YNNI A STRATEGAETH DDIWYDIANNOL AR GEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO I FFERMYDD GWYNT LLANBRYN-MAIR A CHARNEDD WEN**

**RHEOLIADAU GWAITH TRYDAN (ASESU EFFAITH AMGYLCHEDDOL) (CYMRU A LLOEGR) 2000 ("Rheoliadau 2000")**
**RHEOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017 ("Y Rheoliadau Cynefinoedd")**

1. Cododd llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol ar 6 Medi 2018 dri chwestiwn penodol i Gyfoeth Naturiol Cymru i fwydo ailbenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ("HRA") ynglŷn a phrosiectau arfaethedig Llanbrynmair a Charnedd Wen. Gwahoddwyd partïon eraill sydd â buddiant yn hyn o beth hefyd i gyflwyno sylwadau. Erbyn hyn mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y sylwadau[1] a ddaeth i law, gan gynnwys sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar 30 Tachwedd 2018.

2. Erbyn hyn, gwahoddir **yr Ymgeiswyr** i adolygu'r holl sylwadau sy'n ymwneud â materion yr HRA ac i gynnig unrhyw sylwadau. Gofynnir y dylai hyn gynnwys ystyried y materion penodol a ganlyn ac a godwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn eu hymateb i ymgynghoriad Medi 2018.

3. Mewn ymateb i Gwestiwn (1), mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau yn eu hargymhelliad ar 30 Tachwedd 2018 fod y barcut coch wedi'i restru ar hyn o bryd fel un o nodweddion cymwys Ardal Gwarchodaeth Arbennig ("AGA") y

[1] Fe'u cyhoeddir ochr yn ochr â'r llythyr hwn yma: https://www.gov.uk/government/publications/llanbrynmair-and-carnedd-wen-wind-farm-applications-redetermination

Berwyn. Yn ngoleuni'r eglurhad a roddodd Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwahodd **yr Ymgeiswyr** i gyflwyno unrhyw wybodaeth arall yr hoffent ei chyflwyno i ategu eu casgliadau hwythau ynglŷn â'r HRA ar gyfer y rhywogaeth hon.

4. Gofynnwyd hefyd i Gyfoeth Naturiol Cymru ddweud yng Nghwestiwn (2), ynghyd â chyfiawnhad, a yw'r naill brosiect neu'r llall yn debygol o greu effaith arwyddocaol ar AGA y Berwyn, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill. Os nad oes modd diystyru effaith arwyddocaol debygol, gofynnwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru gynghori ar unrhyw ofynion asesu ystyrlon ychwanegol neu newydd (megis modelu'r risg o wrthdrawiad) i lywio Asesiad Priodol yr Ysgrifennydd Gwladol.

5. Mae ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau eu bod yn fodlon â chasgliad HRA yr Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd ar 23 Mehefin 2015, a fu'n ystyried y pum fferm gwynt yn y Canolbarth ynghyd â seilwaith cysylltiedig y llinell uwchben 132kV o fferm wynt Llandinam i is-orsaf y Trallwng. Er hynny, dylid nodi y bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal HRA newydd mewn perthynas â'r ailbenderfyniad ar ffermydd gwynt Carnedd Wen a Llanbrynmair. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cadarnhau nad oedd ganddyn nhw bryderon, ar ddiwedd yr ymchwiliad cyhoeddus, ynglŷn ag effaith ffermydd gwynt Carnedd Wen a Llanbrynmair ar AGA y Berwyn.

6. Mae sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cadarnhau eu bod wedi adolygu'r gwaith arolygu adaryddol ychwanegol ('Llanbrynmair and Carnedd Wen Bird Survey Report 2016/17', cyfeirnod ffeil Llanbrynmair and Carnedd Wen Bird Survey Report 2016-17_public.docx gan BSG Ecology dyddiedig 30 Gorffennaf 2018) a ddarparwyd er mwyn ategu proses yr ailbenderfyniad. Nodir nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod yr wybodaeth o'r gwaith arolygu ychwanegol yn codi rhagor o bryderon ynglŷn â'r cynnig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno a'r argymhelliad yn yr adroddiad y dylid cynnal rhagor o arolygon ynglŷn â'r Gosog cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle, a hynny oherwydd y newid yn y gwaith coedwigo a deinameg y goedwig yn agos i'r safle.

7. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd o'r farn y byddai'n fuddiol pe gallai'r adroddiad ddarparu naratif i nodi, yng ngoleuni'r wybodaeth ddiwygiedig o'r gwaith arolygu, a fyddai'n fanteisiol rhedeg model risg gwrthdrawiad diwygiedig er mwyn bwydo'r ES. Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn croesawu unrhyw sylwadau yr hoffai'r **Ymgeiswyr** eu cyflwyno i fwydo'r HRA yng ngoleuni sylw Cyfoeth Naturiol Cymru.

8. O ran Cwestiwn (3), gofynnwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru ddarparu'r hyn a oedd yn eu barn nhw ar gyfer Llanbrynmair a Charnedd Wen yn rhestr gyflawn o'r prosiectau y dylid eu cynnwys mewn HRA cyfunol ar gyfer AGA y Berwyn. Mae ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru'n cadarnhau nad oes ganddynt restr gynhwysfawr

o'r holl brosiectau a ddylai gael eu hystyried ac mae'n dweud y dylid cysylltu â Chyngor Sir Powys ynglŷn â'r wybodaeth hon. Wrth ystyried y cais hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod sylwadau Cyngor Sir Powys yn y cylch cyntaf o sylwadau dyddiedig 29 Gorffennaf 2016[2] [REP4 PCC] yn cynnwys tabl o ffermydd gwynt ym Mhowys a'u statws cyfredol ar y pryd.

9. Er mwyn i'r **Ymgeiswyr** allu ystyried y rhestr bresennol o brosiectau sydd i'w cynnwys yn yr HRA cyfunol, gofynnir i **Gyngor Sir Powys** ddarparu'r wybodaeth hon i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Ymgeiswyr **erbyn 9 Ionawr 2019**. Ar ôl iddyn nhw gael yr wybodaeth gan Gyngor Sir Powys, gwahoddir yr **Ymgeiswyr** wedyn i gynnig eu sylwadau hwythau **erbyn 30 Ionawr 2019**.

10. Trinnir pob sylw a ddaw i law yn yr ymgynghoriad hwn ar yr wybodaeth amgylcheddol bellach yn unol â pholisi trafod y BEIS o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, sydd wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

11. Anfonir y llythyr hwn heb ragfarnu penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol a ddylid rhoi caniatâd ai peidio i brosiectau ffermydd gwynt Llanbryn-mair a Charnedd Wen sy'n cael eu hailbenderfynu ar hyn o bryd, a rhaid peidio â chymryd dim byd yn y llythyr hwn fel pe bai'n awgrymu beth fyddai'r penderfyniadau hynny.

Yn gywir

Gareth Leigh
Pennaeth Cynllunio Seilwaith Ynni

[2] https://www.gov.uk/government/publications/llanbrynmair-and-carnedd-wen-windfarm-applications-first-round-representations

**Data personol**
Bwriad y canlynol yw esbonio'ch hawliau a rhoi'r wybodaeth y mae gennych hawl i'w chael o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Sylwch fod yr adran hon yn cyfeirio at eich data personol yn unig (eich enw, eich cyfeiriad ac unrhyw beth a allai gael ei ddefnyddio i'ch adnabod yn bersonol) nid cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad.

1. **Enw'r rheolwr data a manylon cysylltu'n Swyddog Diogelu Data**
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yw'r rheolwr data. Gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn GDPR@beis.gov.uk

**2. Pam rydyn ni'n casglu'ch data personol**
Mae'ch data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, er mwyn inni gysylltu â chi ynghylch eich ymateb. Gallwn ei ddefnyddio hefyd i gysylltu â chi ynghylch materion perthynol.

**3. Ein sail gyfreithiol dros brosesu'ch data personol**
Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn dweud y caiff BEIS, yn rhinwedd ei swydd fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol yn ôl yr angen er mwyn cyflawni'n effeithiol dasg sy'n cael ei chyflawni er budd y cyhoedd, h.y. ymgynghoriad.

**4. Gyda phwy byddwn ni'n rhannu'ch data personol**
Ni chaiff eich data personol ei rannu y tu allan i BEIS. Er hynny, fe fydd data dienw (sef sylwadau â'r holl ddata personol wedi'i dynnu) yn cael ei gyhoeddi ar wefan GOV.UK yn: https://www.gov.uk/guidance/consents-and-planning-applications-for-national-energy-infrastructure-projects .

**5. Pa mor hir fyddwn ni'n cadw'ch data personol, neu'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pryd daw'r cyfnod cadw i ben.**
Caiff eich data personol ei ddal am dair blynedd ar ôl y dyddiad y caiff y ceisiadau (sef pwnc yr ymgynghoriad hwn) eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae angen cadw'ch data at ddibenion atebolrwydd rhag ofn i benderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol ar y ceisiadau fod yn destun adolygiad barnwrol neu gael eu torri, ac os felly gall gael ei gadw yn hirach tan ddiwedd unrhyw achos o'r fath.

**6. Eich hawliau chi, e.e. gweld, cywiro, dileu**
Eich data personol chi yw'r data rydyn ni'n ei gasglu, ac mae gennych gryn lais o ran yr hyn sy'n digwydd iddo. Mae gennych chi hawl:
a. i weld pa ddata amdanoch sydd gennym;
b. i ofyn inni roi'r gorau i ddefnyddio'ch data, ond cadw cofnod ohono;
c. i ddileu neu gywiro rhywfaint neu'r cyfan o'ch data; a
d. i gyflwyno cwyn i swyddfa annibynnol y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych yn credu nad ydym yn trafod eich data mewn modd teg neu yn unol â'r gyfraith. Gallwch gysylltu â'r ICO yn https://ico.org.uk/, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

**7. Chaiff eich data personol mo'i anfon dros y môr.**

**8. Chaiff eich data personol mo'i ddefnyddio i wneud unrhyw benderfyniadau awtomataidd.**

**9. Caiff eich data personol ei storio ar system TG ddiogel yn perthyn i'r llywodraeth.**

**10. Mae gennych hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg pan fo BEIS yn dibynnu ar gydsyniad er mwyn prosesu'ch d**